



ARDRETHU ANNOMESTIG  
RHESTRAU ARDRETHU 2023

Canllaw i'n  
HYSBYSIAD CYDNABOD APÊL

Nid yw'r canllaw hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apelio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu'r rheoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

## BETH YW'R TRIBIWNLYS PRISIO?

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn gorff annibynnol yn farnwrol a sefydlwyd trwy'r gyfraith i glywed a phenderfynu apelau o ran Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio. Mae TPC yn gweithredu ledled Cymru ac mae ei swyddfa weinyddol yng Nghasnewydd.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisió (VOA), sy'n gosod Gwerthoedd Ardrethol, a'r Cyngor/Awdurdod Bilio (AB), sy'n anfon biliau ardrethi.

Pobl leol yw aelodau TPC sy'n wirfoddolwyr. Maent yn dod o bob math o gefndir, yn derbyn hyfforddiant ffurfiol, ac yn brofiadol o ran clywed apelau. Fel arfer, bydd tri aelod yn clywed eich apêl er y gall dau aelod glywed apêl os bydd pawb yn y gwrandawriad yn cytuno. Mae cler, sy'n weithiwr cyflogedig yn y Tribiwnlys, yn cynghori ar bwyntiau'n ymwneud â gweithdrefnau a'r gyfraith.

Mae'r Tribiwnlys yn darparu gwasanaeth rhad ac am ddim felly ni all ddyfarnu costau yn eich erbyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hun wrth fynd i wrandawriad y tribiwnlys.

## PAM YDW I WEDI DERBYN HYSBYSIAD CYDNABOD?

Rydych wedi gwneud apêl i TPC yn erbyn:

- penderfyniad a dderbynioch chi gan y VOA;
- hysbysiad cwblhau a gyhoeddwyd gan yr AB; neu
- hysbysiad cosb a gyhoeddwyd gan y VOA.

Mae ein hysbysiad yn dweud wrthy ch ein bod wedi cofrestru eich apêl ac mae'n rhoi ein manylion cyswllt.

Mae'n dangos yr wybodaeth sydd gennym am eich apêl gan gynnwys rhif yr apêl y dylech ei ddyfynnu os ydych yn cysylltu â ni am eich apêl.

**Os bydd unrhyw fanylion yn yr hysbysiad yn anghywir, gofynnir i chi gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith.**

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

### **Apelau Rhestr Ardrethu 2023**

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni roi gwybod i'r VOA eich bod wedi gwneud apêl yn erbyn eu penderfyniad, ac anfonwn gopi atynt o bopeth rydych wedi'i anfon aton ni. Mae gan y VOA gyfle i anghytuno â chynnwys tystiolaeth na chafodd ei datgelu o'r blaen neu i ofyn am gynnwys tystiolaeth a gyfnewidiwyd yn ystod y broses herio ond nad oes cyfeiriad ati yn yr apêl rydych wedi ei gwneud. Rhaid iddo wneud hyn o fewn 4 wythnos o dderbyn copi o'ch apêl.

Rhaid i'r VOA roi gwybod i chi ac i'r Tribiwnlys os yw'n anghytuno â'r deunydd a ddarparwyd gyda'ch apêl. Mae gennych bythefnos o ddyddiad yr hysbysiad hwn i ddweud wrth y Tribiwnlys eich bod yn derbyn yr hyn mae'r VOA wedi'i ddweud neu i roi rhesymau pam rydych yn credu y dylid neu na ddylid cynnwys y deunydd. Cynhwysir gwybodaeth bellach ynglŷn â hyn a gweithdrefnau eraill y

dylech ymgwyfarwyddo â nhw yn ein Cyfarwyddiadau Safonol ar gyfer apelau Rhestr Ardrethu 2023, a geir ar ein gwefan.

Os ydych yn llwyddo i setlo eich apêl gyda'r VOA, gofynnir i chi roi gwybod i'r Tribiwnlys. Cewch dynnu eich apêl yn ôl, mewn ysgrifen, ar unrhyw gam cyn dyddiad y gwrandawriad.

### **Apelau Hysbysiad Cwblhau**

Anfonwyd copi o'ch apêl yn erbyn hysbysiad cwblhau'r AB at y Cyngor. Gall fod modd i chi gyd-drafod a chytuno ar ddyddiad cwblhau gwahanol ac os ydych yn setlo eich apêl gofynnir i chi roi gwybod i ni. Cewch dynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd cyn y gwrandawriad.

### **Apelau Hysbysiad Cosb**

Anfonwyd copi o'ch apêl hysbysiad cosb at y VOA. Os yw'r VOA yn tynnu ei hysbysiad cosb yn ôl, gofynnir i chi roi gwybod i ni. Cewch dynnu eich apêl yn ôl unrhyw bryd cyn dyddiad y gwrandawriad.

A OES ANGEN I MI DALU FY ARDRETHI O HYD?

Er i chi wneud apêl, rhaid i chi ddal i wneud y taliadau a ddangosir ar eich bil.

GWYBODAETH AM APELAU ARDRETHU

### **Apelau Rhestr Ardrethu 2023**

Seilir Gwerth Ardrethol (**GA**) eiddo a gofnodwyd yn y rhestr ardrethu ar ei werth rhent ar y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (**DPRh**). DPRh Rhestr Ardrethu 2023 yw 1 Ebrill 2021.

Pan osododd y VOA y GA, edrychodd ar y rhent sy'n cael ei dalu (os o gwbl) ar eich eiddo ar y DPRh a'i gymharu â rhenti ar eiddo tebyg i osod lefelau gwerth. Er bod y VOA yn prisio'r rhan fwyaf o eiddo trwy edrych ar renti, mae'n defnyddio dulliau eraill i brisio ambell eiddo.

Gellir gweld cofnodion rhestr ardrethu ar gyfer eiddo yng Nghymru a Lloegr ar wefan y VOA: [www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk)

### **Apelau Hysbysiad Cwblhau**

Mae'r hysbysiad cwblhau a gyflwynir gan yr AB yn hysbysu am y dyddiad y mae'r Cyngor yn credu bod eich eiddo wedi'i gwblhau neu erbyn pryd y gellid bod wedi'i gwblhau. Caiff yr atebolrwydd i dalu ardrethi (gan gynnwys y cyfnod eithrio) ei gyfrifo o'r dyddiad hwn.

### **Apelau Hysbysiad Cosb**

Mae'r VOA naill ai wedi cyhoeddi hysbysiad cosb (cosb Rhan 2) achos mae'n ystyried eich bod wedi rhoi gwybodaeth anghywir naill ai'n fwriadol, yn ddi-hid neu yn ddiotal yn ystod camau gwirio a/neu herio y broses apelio. Neu mae wedi cyhoeddi hysbysiad cosb o dan Atodlen 9 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan eich bod wedi methu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'w gynorthwyo i brisio eich eiddo.

## BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Pan gaiff eich apêl ei rhestru i'w chlywed, fe dderbyniwch Hysbysiad Gwrandawriad fydd yn rhoi gwybod i chi am ddyddiad, amser a man cynnal y tribiwnlys. Fel arfer rhoddwn rybudd chwe wythnos am y gwrandawriad.

Fel arfer mae'r gweithrediadau yn y gwrandawriad yn anffurfiol, er hynny rheolir gweithdrefnau'r Tribiwnlys gan y gyfraith ac mae ganddo ei Brocolau (arferion a gweithdrefnau) sy'n rhoi arweiniad pellach ynglŷn â'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan y partion sy'n ymddangos ger ei fron. Gellir dod o hyd i'r Protocolau hyn ac arweiniad pellach ar ein gwefan.

Bydd y tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno eu hachos yn gyntaf a bydd yn sicrhau y rhoddir pob cyfle i'r rhai sy'n anghyfarwydd â'u gweithdrefnau gyflwyno eu tystiolaeth a bod y ffeithiau perthnasol yn cael eu hamlygu mor llawn ag sy'n bosibl.

## A OES ANGEN I MI DDOD I'R GWRANDAWRIAD?

Disgwylir i bob parti ymddangos yn y gwrandawriad oni bai eu bod yn rhoi rhybudd pythefnos o leiaf i'r Tribiwnlys eu bod yn dymuno i'r apêl gael ei chlywed heb iddynt fod yn bresennol. Gallwch ddod i'r gwrandawriad, naill ai yn bersonol neu drwy gyswllt fideo. Mae mynychu'r gwrandawriad yn caniatáu i'r tribiwnlys egluro'r materion dan anghydfod a gofyn cwestiynau, os oes angen.

**Os nad ydych chi neu eich cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawriad, heb roi rhybudd ymlaen llaw, gall y tribiwnlys ddiddymu neu wrthod yr apêl.**

**Os oes gennych chi unrhyw anghenion yn ymwneud, er enghraifft, â'ch golwg, clyw neu symudedd, neu os oes arnoch chi angen cyfieithydd, rhowch wybod i swyddfa'r Tribiwnlys ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, ac fe wnawn ein gorau i gynorthwyo.**

Fodd bynnag mae modd delio â'ch apêl yn y ffyrdd canlynol ar sail cyflwyniad clir a chryno.

### Sylwadau ysgrifenedig

Gweithdrefn ffurfiol yw hon a reolir gan reoliadau statudol. Ni chaiff y Tribiwnlys ddelio â'ch apêl yn y ffordd hon **oni bai bod pob parti yn cytuno mewn ysgrifen i ddefnyddio'r dull hwn**. Mae'n cynnwys cyfnewid datganiadau ysgrifenedig yn ffurfiol dros nifer o wythnosau (12 wythnos fel arfer).

Os bydd y partion yn cytuno i'r dull penderfynu hwn, bydd y Tribiwnlys yn rhoi manylion llawn am sut mae'r weithdrefn yn gweithredu ar y pryd hwnnw.

Pan fydd cyfnewid deunydd wedi'i gwblhau, bydd tribiwnlys yn eistedd i ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig heb fod y partion yn bresennol. Fe all wneud penderfyniad, neu fe all ofyn i'r partion am ddeunydd ychwanegol i'w gynorthwyo yn bellach. Fe all benderfynu mai dim ond trwy gynnal gwrandawriad ffurfiol y gall ddelio â'r achos.

## Cyflwyniad ysgrifenedig

Os na allwch ddod i'r gwrandawriad ac yn dymuno i'ch achos gael ei glywed yn eich absenoldeb, ond nid yw'r partïon wedi cytuno i'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ffurfiol, rhaid i chi ysgrifennu a rhoi manylion unrhyw bwyntiau rydych chi am iddynt gael eu hystyred. Bydd partïon eraill yn dod i'r gwrandawriad o hyd.

### A GAF I GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn am sut mae gweinyddiaeth TPC wedi ymdrin â'ch achos, dylech ysgrifennu at y Tribiwnlys yn y lle cyntaf, i'r cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Cewch wybod am drefn gwyno lawn y Tribiwnlys yn ateb y clerc.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y modd yr ymdriniwyd â'ch apêl yn weinyddol gan y Tribiwnlys yn unig. Caiff apêl bellach yn erbyn y penderfyniad ei gwneud i'r llysoedd uwch.

### DEWIS IAITH: CYMRAEG NEU SAESNEG

Fel mater o drefn caiff hysbysiadau eu paratoi naill ai yn Gymraeg a/neu Saesneg gan ddibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cais gwreiddiol am apêl. Fodd bynnag, gallwch roi gwybod i ni am newid dewis iaith tra byddwn yn gweinyddu eich achos ac yn trefnu eich gwrandawriad tribiwnlys.

Croesewir gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd ysgrifennu atom yn Gymraeg yn arwain at oedi yn ein hateb.

### GWYBODAETH BELLACH

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau. Mae ein canllawiau eraill yn cynnwys:

- canllaw i'n hysbysiad gwrandawriad; a
- canllaw i'n hysbysiad penderfynu.

Hefyd, rydym yn cynnig canllawiau ar ddelio gydag apelau Priso'r Dreth Gyngor, Atebolrwydd i Dalu'r Dreth Gyngor a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r canllaw hwn ar gael ar wefan TPC neu gellir gofyn amdano trwy gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys i'r cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau.

### Ein cofnodion

Yn ôl y gyfraith, caiff unrhyw un ymweld â swyddfa'r Tribiwnlys i edrych ar gopiâu o agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Rhestrau o apelau yw'r agendâu y rhoddwyd dyddiad gwrandawriad iddynt.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am TPC a'i gyhoeddiadau ar ein gwefan:

[www.tribiwnlysprisio.cymru](http://www.tribiwnlysprisio.cymru)

Mae hefyd yn cysylltu â phorth lle gallwch weld ein rhestrau a phenderfyniadau apêl ar-lein.

### **Deddfwriaeth berthnasol**

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer gweinyddu Ardrethu Annomestig yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a rheoliadau ategol, yn benodol:

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) WSI 2023/350

### **Ein swyddfa**

Tribiwnlys Prisio Cymru  
22 Gold Tops  
CASNEWYDD  
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: [gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru](mailto:gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru)